

Academi Arwain Lleol Cymru



WLGA • CLILC

Cynghorydd Effeithiol yn ei Ward

Llawlyfr i'r Cynghorwyr



Local 
Government
Improvement
and Development



Cynnwys

- 01** Rhagair a Chyflwyniad
- 02** Rôl cynghorydd yn ei ward
- 03** Adnabod eich ward
- 04** Cynrychioli buddiannau pawb yn y gymuned
- 05** Pennu blaenoriaethau lleol
- 06** Cymunedau cydlynol
- 07** Cyfathrebu a dylanwadu
- 08** Ennill eich plwyf
- 09** Trin a thrafod y cyfryngau
- 10** Trin a thrafod achosion
- 11** Y camau nesaf

Atodiad

Ffynonellau rhagor o wybodaeth



Rhagair a chyflwyniad

Diben y llawlyfr hwn yw helpu cynghorwyr newydd a phrofiadol fel ei gilydd i feithrin medrau fydd yn eu helpu i gyflawni eu rôl ynglŷn â chynrychioli'r cyngor a'r gymuned.


Mae'r term 'cynghorydd yn ei ward' yn cwmpasu pob agwedd ar rôl cynghorydd yn y gymuned gan gynnwys cynrychioli ac arwain y gymuned honno. Er bod 'adran etholiadol' wedi disodli 'ward' yn swyddogol bellach, byddwn ni'n defnyddio 'ward' achos dyna'r gair mae'r cynghorwyr yn ei ddefnyddio, gan amlaf.

Bydd y llawlyfr yn arbennig o ddefnyddiol i gynghorwyr sydd newydd ddechrau ym myd llywodraeth leol achos y bydd yn eu galluogi nhw i ddysgu am brif agweddau eu rôl yn gyflym yn ogystal â'u helpu i ganolbwyntio ar y medrau y bydd eu hangen arnyn nhw i gyflawni'r rôl bob dydd.

Does dim rheolau cadarn ynddo am fod cydnabyddiaeth y dylai pob cynghorydd gael penderfynu ar y ffordd orau o gyflawni'r rôl yn ôl natur y ward mae'n ei gynrychioli a'r dulliau sy'n gweddu iddo. Felly, bydd y llawlyfr yn dangos y cyfeiriad yn hytrach na phennu'r daith.

I elwa i'r eithaf, rhaid ichi feddwl am eich ffordd chi o fynd ati a'r modd mae'r deunydd yn berthnasol i'ch gwaith yn eich bro, y bobl rydych chi'n eu gwasanaethu a'r cyngor rydych chi'n ei gynrychioli.

Wrth astudio cynnwys y llawlyfr, fe welwch chi nifer o nodweddion i'ch helpu chi i feddwl am arwain y gymuned a rôl y cynghorydd. Y symbolau isod sy'n dangos y nodweddion hynny:




Canllawiau

canllawiau, canlyniadau ymchwil, dyfyniadau, esboniadau a diffiniadau allai fod o gymorth ichi.



Holi

ystyried eich rôl neu'ch ffordd chi o fynd ati yn ôl y testun rydych chi newydd ei ddarllen – yn y bôn, eich procio chi i feddwl am y pwnc dan sylw.




Astudiaethau

braslun o'r modd mae cynghorwyr eraill wedi trin a thrafod y rôl.



Gair i gall

amryw arferion da allai fod o gymorth ichi.



Dolenni

linciau â rhagor o wybodaeth allai'ch helpu i fireinio egwyddorion, prosesau a gwahanol ffyrdd o fynd ati. Mae rhestr o wybodaeth ychwanegol yn yr atodiad, hefyd.

Rôl cynghorydd yn ei ward >

Mae dwy agwedd i rôl sylfaenol cynghorydd. Ar y naill law, rhaid cynrychioli ei ward gan gyflwyno sylwadau cymuned amryfal a chymhleth i'r cyngor, ei bartneriaid a chyrrff eraill. Ar y llaw arall, rhaid helpu'r trigolion i ddeall sut mae'r cyngor yn dod i benderfyniadau ac yn trefnu ei wasanaethau, gan eu helpu nhw i gymryd rhan yn y prosesau hynny.

I wneud hynny, bydd angen meithrin cysylltiadau a sefydlu cylchoedd i hysbysu a grymuso pobl, ymgynghori â nhw a gofalu bod y gymuned yn cymryd rhan yn effeithiol ym maes llywodraeth leol. Rhaid cyfleu darlun o waith y cyngor a'i bartneriaid ac arwain y gymuned a mudiadau perthnasol wrth lunio delfryd ar gyfer yr ardal a phennu'r camau y bydd eisiau eu cymryd i'w wireddu.

"Does neb ac iddo rôl bwysicach na'r cynghorydd yn ei ward ynglŷn â gofalu bod democratiaeth leol ar waith a bod y trigolion yn ymddiried ynddi."

IDEA 'Gwella a Datblygu Llywodraeth Leol' bellach 2009

Mae'n bwysig i gynghorydd ddeall materion sy'n berthnasol i'w fro a meithrin y medrau, yr hyder a'r gallu i ymdrin â nhw er lles y bobl. Byddwch chi'n ymwneud â strwythurau a gweithgareddau i ymgysylltu â'r gymuned, gan hwyluso trafodaethau rhwng y trigolion, y cyngor a'i bartneriaid. Gall hynny fod yn dipyn o her, yn arbennig i'r rhai sydd newydd gael eu hethol!

Er bod gwasanaethau'r cynghorau wedi gwella'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf hyn, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y cyhoedd yn disgwyl rhagor fyth o ran gwasanaethau a'r rhai sy'n eu cynnig. Ar ben hynny, mae'r prif wasanaethau cyhoeddus – heddluoedd, cynghorau a'r GIG – yn tueddu i weithio ar eu pennau eu hunain o hyd gan ufuddhau i gyfarwyddiadau gwladol yn hytrach nag ystyried sut gallen nhw gydweithio'n lleol i ateb problemau'n well. Rôl cynghorydd yn ei ward yw gweithredu'n ddolen gyswllt rhwng y gymuned, y cyngor a'i bartneriaid.

Rôl cynghorydd yn ei ward >

Ystyriaethau strategol

Mae angen i awdurdodau lleol gydweithio â'i gilydd a chyrrff statudol ac anstatudol eraill i ofalu bod:

- gwasanaethau o'r radd flaenaf ar gael i'w cymunedau – teuluoedd ac unigolion fel ei gilydd;
- gwasanaethau'n cael eu cyfuno lle bo modd ac yn diwallu anghenion dinasyddion yn hytrach nag anghenion y sefydliad sy'n eu cynnig;
- gwasanaethau lleol yn effeithlon ac yn defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithiol.

Byrddau Gwasanaeth Lleol

Byrddau Gwasanaeth Lleol yw patrwm Cymru ar gyfer ymygysylltu â gwasanaethau cyhoeddus Cymru gyfan trwy gyfrwng trefnau cydweithio, trwy gyfuno gwasanaethau ac ymateb yn fwy effeithiol i anghenion y dinasyddion. Mae gan bob un o 22 awdurdod lleol Cymru ei Fwrdd Gwasanaeth Lleol, er y gall rhai ohonyn nhw gyfuno maes o law. Y nod yw gwella safonau'r gwasanaethau ar gyfer y dinasyddion trwy bennu'r gwasanaethau allweddol hynny y mae angen iddyn nhw weithredu ar y cyd, cyfuno eu hadnoddau a chael gwared ar arferion biwrocraidd a rhwystrau eraill - er mwyn gwella safonau'r gwasanaethau hyn. Arweinwyr allweddol ar draws y sectorau gwladol, gwirfoddol a phreifat fydd aelodau'r byrddau hyn, bob un yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb ar y cyd ynglŷn â chysylltu holl rwydwaith y gwasanaethau cyhoeddus sydd yn eu hardaloedd. Bydd y byrddau'n cytuno ar gasgliad o gamau cydweithredu ar gyfer sicrhau hynny a'u rhoi nhw ar waith – ynghyd â chytuno ar Strategaeth ar gyfer y Cymunedau o fis Ebrill 2013 ymlaen.

Byrddau rhanbarthol WLGA

Mae byrddau rhanbarthol, sy'n cynnwys prif weithredwyr ac arweinyddion awdurdodau lleol, wedi'u sefydlu ar gyfer y de-ddwyrain, y de-orllewin, y gogledd a'r canolbarth i hyrwyddo trefnau cydweithio.

Gweithio ar y cyd â'r sector gwirfoddol

Mae modd i gyrff gwirfoddol a mentrau cymdeithasol fod yn bartneriaid effeithiol o ran cynnal gwasanaethau. Gallan nhw fod o gymorth ichi ynglŷn â nodi anghenion lleol a gwireddu blaenoriaethau'r ardal trwy eich helpu chi i feithrin cysylltiadau â'ch cymunedau. Yn ôl pob tebyg, byddan nhw'n ymwneud â phartneriaethau cymunedol ac yn cyfrannu at strategaethau cymunedol. At hynny, maen nhw'n cynnal gwasanaethau lleol pwysig sy'n gyflenwol i'r hyn mae'r cyngor yn eu cynnig. Yn aml iawn, bydd y cyrrff hynny'n cael eu hariannu gan ymddiriedolaethau neu'r lotri yn ogystal â grantiau'r cyngor. A chithau'n gynghorydd, fe fyddwch chi'n cymryd rhan yn y penderfyniadau am ariannu cylchoedd gwirfoddol a chymunedol.

Rôl cynghorydd yn ei ward > Gadael eich ôl ar gymuned

Mae modd diffinio rôl cynghorydd yn ei ward fel a ganlyn:

Cynrychioli'r gymuned: Tynnu sylw'r cyngor, y bwrdd gweithredol a'r pwyllgorau craffu at faterion sy'n berthnasol i'r ward a'i gymdogaethau.

Llunio a gwella gwasanaethau: Gwella gwasanaethau trwy gynnal cymorthfeydd, trin a thrafod achosion, crwydro'r fro, datrys problemau, gweithredu yn y gymuned a chydweithio â phartneriaid.

Bydd gwasanaethau lleol sy'n effeithio ar gymunedau'n destun trafod ymhlith y trigolion. Dyma rai enghreifftiau:

- Parciau a mannau agored
- Cynnal a chadw'r strydoedd
- Diogelwch cymunedol
- Ysgolion
- Tai
- Cynllunio
- Cyfleusterau cymunedol
- Byd busnes
- Gwasanaethau i'r ifainc
- Mentrau adfywio cymdogaethau
- Byw'n iach

Ymgysylltu â'r gymuned: Mae hyn yn ehangach nag ymgynghori. Mae'n cynnwys ysgogi pobl i weithredu, cymodi, hwyluso perthynas, nodi buddiannau sy'n gyffredin i garfanau, nodi'r rhai allai gael eu gyrru i'r ymylon ac estyn braich i bobl grwydrol.

Arwain y gymuned: Ar y cyd â'r trigolion a'r partneriaid, llunio delfryd ar gyfer y fro a chymryd camau i'w wireddu. Rhoi cyfle i'r gymuned gymryd rhan yn y broses benderfynu a phrosesau trefnu a chynnig gwasanaethau gan annog pawb i helpu i ddatrys problemau.

Yr elfen wleidyddol: Mae hyn yn hanfodol o ran atebolrwydd gan eich bod wedi'ch ethol yn ôl maniffesto lleol ac yn gaeth i ofynion eich plaid (lle bo'n berthnasol). Bydd agwedd ei gylch gwleidyddol yn dylanwadu'n gryf ar y modd mae cynghorydd yn cyflawni ei rôl.

Gall cynrychioli cymunedau, carfanau ac unigolion amryfal a chyfnewidiol fod yn gymhleth. Mae'n anodd iawn ymgysylltu â rhai carfanau.

Ar y cyfan, po fwyaf o ddulliau cysylltu sydd ar waith, y mwyaf o bobl gaiff y neges.

Rôl cynghorydd yn ei ward >

Gwneud y gwahaniaeth mewn cymunedau



Beth yw prif rinweddau cynghorydd da yn ei ward, yn eich barn chi?

Nodwch bum rhinwedd bwysicaf cynghorydd yn ei ward.

- 1 _____
- 2 _____
- 3 _____
- 4 _____
- 5 _____

Yn ôl arolwg gan gwmni MORI fis Gorffennaf 2001, dyma'r rhai pwysicaf:

Dylai cynghorydd fod yn un:

- blaengar, hawdd ei gyrraedd ac atebol;
- lleol sy'n adnabod y gymuned ac yn siarad ar ei rhan;
- rhagweithredol sy'n gwrandao ar y bobl ac sydd ar gael iddyn nhw;
'Fe ddylen nhw ddod allan a siarad â ni, dod i'n 'nabod ni.'
- sy'n gweithredu yn ôl barn y trigolion.

Adnabod eich ward >

Mae'n gymhleth cynrychioli buddiannau miloedd o bobl achos bod bywyd cymdeithasol a gwleidyddol wedi newid dros y degawdau diweddar. Mae cymunedau'n fwyfwy amryfal bellach ac mae'r dirwasgiad wedi effeithio ar gymunedau, cwmnïau a theuluoedd mewn ffyrdd gwahanol.

Efallai eich bod yn byw yn eich ward ers sawl blwyddyn ond, yn ôl pob tebyg, fyddwch chi ddim yn adnabod pob un o'r cymunedau sydd yno na'u problemau i gyd.

Bydd natur ward yn newid achos bod pobl yn gadael ac yn cyrraedd drwy'r amser.

Crwydro'r ward

Ffordd dda o ddod i adnabod eich ward yw cerdded, seiclo neu yrru trwyddo – hyd yn oed os ydych chi'n byw yno ers blynyddoedd – gan edrych ar y ffyrdd, y palmentydd, y meysydd chwarae, y manau agored a chyfleusterau cymunedol eraill. O wneud hynny, cewch chi gyfle i weld pethau mae angen eu hatgyweirio (megis ffensys, offer, tyllau, graffiti a goleuadau), tynnu sylw adrannau priodol y cyngor atyn nhw a chofnodi beth wnaethon nhw wedyn. Bydd modd cwrdd â'r etholwyr yn anffurfiol, hefyd.

Bydd rhai cynghorwyr yn crwydro'r ward gyda chynghorwyr eraill neu brif swyddogion fel y gallan nhw ddod i benderfyniad yn y fan a'r lle. Byddwch chi'n creu argraff dda trwy ddatrys rhai problemau'n ddiymdroi. Gallech chi gerdded trwy'r ward bob hyn a hyn gyda phobl allweddol megis cadeiryddion cymdeithasau preswylwyr, aelodau o gyngor y dref neu'r gymuned neu blismyn cymunedol. Bydd yn ddefnyddiol meithrin gwybodaeth am broblemau ar y cyd a thrafod ffyrdd o'u datrys.

Adnabod eich ward >



Meddwl am eich ward

Beth yw natur poblogaeth eich ward, ar y cyfan?

Faint o weithwyr ymfudol sy'n byw yno?

Faint o bobl groenddu sydd yno?

Sut rydych chi'n mynd i'r afael â diweithdra yno?

Beth mae'r cyngor yn ei wneud ynglŷn â materion tai/tai fforddiadwy?

Ydych chi'n deall blaenoriaethau'r strategaeth gymunedol?

Sut mae'r blaenoriaethau hynny'n effeithio ar eich ward?

Pa mor dda oedd canlyniadau addysgol diwethaf ysgolion y ward?

Pa weithdrefnau rydych chi'n eu defnyddio i roi adborth i'ch cyngor?

Adnabod eich ward >



Gair i gall

Bydd gan eich cyngor wybodaeth helaeth am eich ward. Gall y data fod o gymorth wrth lunio ac adolygu polisiau a gwasanaethau yn y ward a phennu anghenion y trigolion. Mae amrywiaeth eang o ystadegau a dangosyddion am themâu megis pobl, yr economi, addysg, iechyd, tai a throseddu ar InfoBase Cymru, hefyd:

www.infobasecymru.net

Mae Uned Ystadegol Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi llawer o wybodaeth fesul thema ac ardal **www.new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/;jsessionid**

Ar wefan Swyddfa'r Ystadegau Gwladol, mae data am eich ward o'i gymharu â wardiau eraill.

Mae'r data wedi'u paratoi yn ôl amryw ffactorau megis credydau i deuluoedd, budd-dal cynnal incwm, nifer y myfyrwyr, lwfans gweini, budd-dal analluedd a lwfans anabledd difrifol: **www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/**

Cynrychioli buddiannau pawb yn y gymuned >

Mae gofyn i'r cyngor gynrychioli buddiannau'r gymuned i gyd. Felly, bydd nodi anghenion amryw garfanau yn y ward yn rhan bwysig o'ch rôl.

Rhaid bod yn graff weithiau pan fo buddiannau'n groes i'w gilydd, e.e. efallai na fydd perchnogion cŵn, rhieni plant bach a cherddwyr yn cytuno am amodau defnyddio parc lleol. Felly, bydd yn hanfodol cynrychioli'r amryw safbwyntiau mewn modd agored a rhesymegol.

Wrth gynrychioli'r gymuned, bydd eisiau ichi hyrwyddo buddiannau unigolion a'r bobl i gyd, weithiau. I wneud hynny, bydd angen y medrau canlynol:

gwrando – mynd ati i gael gwybod am farn ac anghenion pobl. Gallwch chi wneud hynny ar garreg y drws, wrth grwydro ystadau neu gysylltu â chylchoedd nad ydych chi'n eu hadnabod yn dda, e.e. cylchoedd 'mam a'i phlentyn', cylchoedd i'r rhai sydd o dras groenddu neu leiafrifol yn y gymuned neu gylchoedd i'r ifainc. Efallai y bydd yn well gyda chi gwrdd â phobl mewn cymorthfeydd i drafod testunau pryder.

holi – holi'n dringar i ddatgelu craidd y broblem, sbarduno syniadau a chodi amheuon am safbwyntiau eithafol, sylwadau byrbwyll a gwybodaeth gamarweiniol.

eirioli – gofalu bod pobl yn cael dweud eu dweud am faterion a phenderfyniadau. Yn aml, bydd angen siarad ar ran pobl sydd heb eu cynrychioli'n llawn, pobl sydd wedi'u hanwybyddu a phobl mae'u hargyhoeddiadau'n wahanol i'ch rhai chi.

hwyluso – helpu unigolion a chylchoedd i ddod at ei gilydd, trafod materion sy'n effeithio ar y ward, pwysu a mesur amryw safbwyntiau a dod i gytundeb ar atebion allai ddiwallu anghenion lleol.

rhoi gwybodaeth – siarad â phobl a rhoi gwybodaeth mewn iaith glir fel y gallan nhw ddeall gwasanaethau a phrosesau llywodraeth leol, e.e. osgoi jargon a geirfa dechnegol neu gyfreithiol.

Sefyllfaoedd allai achosi tyndra ac anawsterau:

- Buddiannau'r ward yn groes i rai'r cyngor
- Mynd â'r maen i'r wal o'i gymharu ag ymgynghori'n eang
- Anghenion strategol o'u cymharu â gwrthwynebiadau lleol
- Safbwynt cytbwys o'i gymharu â gwleidyddiaid pleidiol
- Hel sylwadau heb ymddangos yn ffuantus

Cynrychioli buddiannau pawb yn y gymuned >



Barn pwy yw hi beth bynnag? Ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned

Dychmygwch fod y cyngor wedi gofyn ichi gynrychioli sylwadau trigolion eich bro yn y sefyllfaoedd isod. Sut byddech chi'n hel eu sylwadau ac â phwy y byddech chi'n siarad?

a) Cau canolfan oriau dydd sy'n cynnig gwaith cyflogedig a gwirfoddol i bobl mae gyda nhw anableddau dysgu.

b) Nodi pa mor dda mae gwasanaethau hamdden lleol yn diwallu anghenion y gymuned.

c) Nodi pwy sydd o blaid sefydlu parc sglefrio i bobl ifanc.

Ystyriwch yr atebion roesoch chi uchod. Faint o weithiau rydych chi wedi ymgynghori â phobl am faterion o'r fath? Pa mor aml y byddwch chi'n cyfleu'r safbwynt mae pobl yn debygol o'i arddel heb fynd i'r drafferth o'u holi nhw?

Pennu blaenoriaethau lleol >

A chithau'n un o arweinyddion y gymuned, bydd rhaid ichi fynd ati i ymgynghori â phobl a mudiadau lleol am faterion y bydd eich cyngor yn penderfynu arnyn nhw. I wneud hynny, bydd angen darllen agenda pob cyfarfod i nodi pynciau allai fod o ddiddordeb i'ch ward.

Rhaid i bob cynghorydd roi digon o sylw i flaenoriaethau lleol gan fynd i'r afael â materion megis tewdra ymhlith plant, nifer y merched ifanc sy'n disgwyl, tai fforddiadwy, cynnal a chadw'r strydoedd a chwtogi ar droseddu ac anhrefn.

O feithrin cysylltiadau ag uwch swyddogion y cyngor, dylai fod modd cael rhybudd am faterion sy'n achosi pryder yn eich ward ond heb gael eu trafod gan yr un pwyllgor. Gallai fod yn ddefnyddiol siarad ag arweinyddion eraill yn y gymuned megis cynghorwyr eraill y ward, gweithwyr gwirfoddol, staff allweddol mudiadau gwirfoddol a chymunedol y fro, yr heddlu a'r ysgolion.

Ar ôl dod i adnabod eich ward a'r hyn mae'r trigolion yn disgwyl ichi ei wneud, gallwch chi bennu rhai blaenoriaethau gan ystyried i ba raddau maen nhw'n cyd-fynd â rhai'r cyngor ar gyfer yr ardal i gyd.



“Rhaid cadw barn y trigolion mewn cof bob amser wrth lunio polisiau'r cyngor. Pan nad yw penderfyniad yn bodloni rhai ohonyn nhw, rhaid ichi esbonio'r rheswm dros ddod i'r penderfyniad hwnnw.”

Y Cyng. Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion

Pennu blaenoriaethau lleol >



Ystyriwch beth hoffech chi ei gyflawni yn eich ward o'i gymharu ag amcanion y cyngor.

Blaenoriaethau'r ward

Blaenoriaethau'r cyngor

Sut maen nhw'n cymharu?

Ble maen nhw'n cyd-fynd ac yn gwrthdaro?

Pennu blaenoriaethau lleol >



Dychmygwch fod y problemau isod wedi codi yn eich ward. Ym mhob achos, beth mae modd ei wneud? Â phwy y gallech chi gysylltu?

Mae rhai trigolion wedi'ch ffonio i gwyno am anhrefn o gwmpas siop leol. Mae ceir wedi'u dwyn ac mae pobl yn gyndyn o weithredu rhag ofn y bydd troseddwy'r yn dial arnyn nhw.

Mae cylch cymunedol yn gofyn ichi gefnogi ei gais am arian ar gyfer datblygu cymdogaeth ddifreintiedig yn eich ward.

Mae gwasanaeth ieuenctid y cyngor wedi gofyn ichi gynrychioli a chefnogi cynllun sy'n hyrwyddo mannau glas, chwaraeon a rhaglenni meithrin medrau er lles pobl ifanc. Mae'r cynllun ar y gweill o hyd ac fe hoffai'r gwasanaeth ichi ei helpu i'w sbarduno.

Edrychwch ar eich atebion a'ch ffordd o fynd ati. Ydych chi'n gwybod sut mae cysylltu â'r asiantaethau a'r cylchoedd perthnasol? Os nad oes yr wybodaeth i gyd wrth law, sut mae dod o hyd iddi? Ydy'ch atebion yn cydblethu â blaenoriaethau'r cyngor a'r strategaeth gymunedol?

Pennu blaenoriaethau lleol >



Cais Cyngorydd am Weithredu

Os oes gan gyngorydd bryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol neu gamddefnyddio cyffuriau yn ei fro, mae'n cael tynnu sylw pwyllgor craffu troseddu ac anhrefn y cyngor atyn nhw.

Cafodd gweithdrefn Cais Cyngorydd am Weithredu ei chyflwyno fis Hydref 2009. Mae cyngorydd yn cael defnyddio'r weithdrefn i dynnu sylw pwyllgor trosolwg a chraffu'r cyngor at faterion megis ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio cyffuriau sy'n achosi pryder ymhlith pobl ei ward. Yna, bydd y pwyllgor yn penderfynu a yw'n cael defnyddio ei bwerau i fynd ar ôl y mater trwy, er enghraifft, adolygu'r polisi, gwahodd cyngorwyr a swyddogion i gyfarfod neu gyflwyno argymhellion i'r cabinet. Bydd modd gofyn i'r cabinet ailystyried un o'i benderfyniadau, hefyd. Rhaid i'r pwyllgor anfon unrhyw adroddiad mae wedi'i baratoi yn ôl y weithdrefn i'r awdurdod lleol a'r cyrff sy'n rhan o'r bartneriaeth dros ddiogelwch cymunedol ac at y cyngorydd gododd y mater. Felly, mae'r weithdrefn yn un ddefnyddiol ynglŷn â galluogi cyngorwyr i weithredu dros gymunedau a chryfhau eu rôl o ran hyrwyddo buddiannau'r cymunedau hynny. Bydd cyngorwyr yn parhau i ddatrys problemau'n anffurfiol yn y modd arferol, wrth gwrs, ond lle maen nhw wedi dod i'r casgliad nad oes neb yn cymryd y mater o ddifrif, bydd modd ei roi gerbron pwyllgor trosolwg a chraffu.'

Canllawiau am Graffu yng Nghymru ynglŷn â Materion Troseddu ac Anhrefn: Cylchlythyr 001/2010 Llywodraeth y Cynulliad

Cymunedau cydlynol >

Mae rôl yr awdurdodau lleol ynglŷn ag arwain y gymuned, fel sydd wedi'i disgrifio yn Neddf 'Llywodraeth Leol' 2000, yn rhan sylfaenol o waith y cynghorwyr o ran datblygu cymunedau cydlynol.

Beth yw cydlyniant cymunedol?

'Defnyddir y term cydlyniant cymunedol i ddisgrifio'r modd mae pawb mewn ardal yn byw ochr yn ochr gyda goddefgarwch a pharch.'

Cymru'n Cyd-dynnu – Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad

Fel y rhan fwyaf o agweddau bywyd yn y gymuned, y bobl eu hunain sy'n creu cydlyniant, er bod yr awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gallu eu helpu i wneud hynny.

Gall cynghorwyr helpu trwy gynnwys pob carfan o'r gymuned yn ogystal â'r partneriaid, gan gydnabod, gwerthfawrogi a defnyddio'r amrywiaeth helaeth o wybodaeth a medrau sydd ar gael yn y sectorau gwirfoddol a chymunedol. Rhaid wrth agwedd hyblyg fel y gallwch chi ymateb ac ymaddasu yn ôl yr amgylchiadau.

Gall cynghorwyr sefydlu ffora lleol hefyd, i ddod â buddiannau'r gymuned i gyd at ei gilydd fel y bydd modd dylanwadu ar brosesau penderfynu'r cyngor a datrys anghydfod neu gamddealltwriaeth ymhlith amryw garfanau.

Rhaglen 'Cymunedau'n Gyntaf'

Cafodd y rhaglen ei chyflwyno yn 2001 ac mae ganddi dros 150 o bartneriaethau ledled Cymru erbyn hyn.

Mae pob un yn dod ag aelodau o'r gymuned leol ynghyd â chynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol. Mae timau bychain o staff yn cynorthwyo pob partneriaeth. Fel arfer, maen nhw'n gweithio yng nghanol y gymuned fel y gallan nhw ddod i adnabod y bobl a bod ar gael iddyn nhw er mwyn eu helpu i gysylltu â'r cyrff sy'n cynnig gwasanaethau a chymorth priodol.

Mae partneriaethau Rhaglen 'Cymunedau yn Gyntaf' yn helpu gydag ystod eang iawn o waith gyda phobl o bob oedran ac yn mynd i'r afael â llawer o agweddau ar amddifadedd, gan wella iechyd, creu swyddi a dod ag arian ychwanegol i'r cymunedau hynny.

Trwy Raglen 'Cymunedau yn Gyntaf', mae adfywio amgylcheddol ac economaidd yn mynd law yn llaw â gwaith ymgysylltu â'r gymuned a gweithredu er cyfiawnder cymdeithasol.

Cyfathrebu a dylanwadu >

O ddeall natur ac anghenion eich ward, dylech chi fod mewn sefyllfa gryf i gymryd camau:

- gallwch chi siarad yn hyderus ar ran eich ward pan fo mater sy'n effeithio arno'n destun trafod neu benderfynu;
- gallwch chi asesu a yw'r rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar wasanaethau'r cyngor a'i bartneriaid ac a ydyn nhw o'r farn eu bod yn cael gwerth eu harian;
- gallwch chi gefnogi camau yn y gymuned a galluogi'r trigolion i'w helpu eu hunain trwy ddeall eu nodau, eu dyheadau, eu safbwyntiau a'u tactegau;
- gallwch chi hyrwyddo cydweithio ymhlith cyrff gwladol, preifat a gwirfoddol yn ôl anghenion cydnabyddedig y gymuned.

Bodddhad yn sgîl gweithredu er lles pobl y fro yw'r cymhelliant i sawl cynghorydd ond, yn aml, y gamp yw darbwyllo'r cyngor neu gorff allanol i gymryd sylwadau'r bobl i ystyriaeth wrth ddod i benderfyniadau. I wneud hynny, bydd angen ichi feithrin medrau cyfathrebu a dylanwadu.

Wrth geisio dylanwadu ar yr hoelion wyth, rhaid defnyddio'ch medrau a'ch craffter, gan gadw bob amser at y rheolau isod:

- paratoi ar gyfer cyfarfodydd trwy astudio'r agenda a gofalu eich bod yn gyfarwydd â'r materion sydd i'w trafod – peidiwch â chodi materion sy'n agos at eich calon ond yn amherthnasol i'r drafodaeth yn ystod cyfarfod;
- cymryd rhan yn y drafodaeth, dod i gasgliad yn ôl lles y gymuned a chyd-fynd â phenderfyniad y mwyafrif;
- gofalu, gyda'r cynghorwyr eraill, fod prosesau trafod a phenderfynu'r cyngor yn cael eu rheoli'n dda – dylech chi eu harchwilio'n drylwyr;
- cynrychioli'r trigolion i gyd, nid dim ond y rhai bleidleisiodd drosoch chi – ar ôl gwranddo ar y bobl, dylech chi gynrychioli eu sylwadau wrth drafod gwaith y cyngor a gweithio gyda chyrrff allanol;
- ymddwyn yn briodol yn gynrychiolydd mae'r bobl wedi'i ethol (e.e. cadw at gôd ymddwyn eich cyngor).

Cyfathrebu a dylanwadu >



Rhai syniadau ar gyfer ymgynghori â phobl:

- Mae modd argraffu holiaduron neu eu hanfon trwy ebost.
- Mae cylchoedd trafod yn ddefnyddiol o ran dod ag amrywiaeth o bobl at ei gilydd i gnoi cil ar fater penodol.
- Gall sioe deithiol eich helpu i hyrwyddo'ch safbwynt ymhlith y trigolion a hel eu sylwadau.
- Dylech chi ystyried cyfryngau cymdeithasol megis blog a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol. O'u defnyddio'n effeithiol, bydd yn bosibl ymgysylltu â'r rhai nad ydyn nhw'n ymwneud â chynghorwyr, fel arfer. Darllenwch y canllawiau cyfredol i wneud yn siwr eich bod yn cydymffurfio â chôd ymddwyn y cyngor.

Mae peth gwybodaeth am hyn ar:

www.idea.gov.uk/idk/core/page.do?pageId=17797214

Ennill eich plwyf >

Meddylwch am eich dyletswyddau chi gyda'r cyngor yn ystod y mis, fel arfer e.e. mynychu cyfarfodydd y cyngor, trin a thrafod achosion, mynychu cyfarfodydd yn y ward, cydweithio â phartneriaid a chymryd rhan mewn gweithgareddau lleol. Mae'r tabl isod yn dangos disgwyliadau'r cyhoedd ynglŷn â gwaith cyngorwyr:

Nodwch ddau neu dri pheth ar y rhestr hon yr hoffech chi i'ch cyngorydd eu gwneud.	Yr hyn mae pobl yn gweld cyngorwyr yn ei wneud	Yr hyn y dylai cyngorwyr ei wneud
Delio â phroblemau pobl y ward.	43%	75%
Paratoi ar gyfer cyfarfodydd a'u mynychu	35%	11%
Ymgynghori â'r cyhoedd a chynrychioli eu sylwadau	30%	68%
Cynrychioli'r cyngor mewn amryw gyrf allanol	23%	7%
Pennu blaenoriaethau'r cyngor	22%	22%
Adolygu pa mor dda mae'r cyngor yn gweithio	22%	21%

Ffynhonnell: Gwefan yr IDEa (Gwella a Datblygu Llywodraeth Leol bellach), 'Raising the profile of elected members' – 2009.

Trin a thrafod y cyfryngau >

Elfen allweddol arall o'ch rôl ynglŷn â chyfathrebu a dylanwadu yw'r modd rydych chi'n ymwneud â'r cyfryngau lleol. Mewn democratiaeth, mae'r cyfryngau'n hanfodol i ofalu bod prosesau penderfynu lleol yn dryloyw a bod y cynghorau a'u haelodau etholedig yn atebol.

Y dyb gyffredinol yw bod y wasg yn barod i ladd ar fyd llywodraeth leol bob amser, ond mae tystiolaeth yn awgrymu bod y cyfryngau lleol – lle mae perthynas dda â nhw – yn fodlon cyfleu darlun ffafriol o fyd llywodraeth leol.

Bydd gan eich cyngor brotocolau am gyhoeddi datganiadau i'r wasg a siarad â'r cyfryngau lleol. Os nad ydych chi'n siwr pa weithdrefnau sydd gan eich cyngor, dylech chi gael gwybod cyn cymryd unrhyw gamau.

Hel straeon yw gwaith newyddiadurwyr y wasg a'r byd darlledu, yn y bôn. Yn aml, y straeon hynny fydd prif ffynhonnell yr wybodaeth am lywodraeth leol i'r dinasyddion sydd â diddordeb yn y maes a'r rhai sydd heb ddiddordeb ynddo fel ei gilydd. Felly, bydd angen ichi ddefnyddio'ch medrau cyfathrebu a dylanwadu i ofalu bod y cyfryngau'n disgrifio'r pwnc dan sylw'n gytbwys.



Rhai awgrymiadau ynglŷn â thrin a thrafod y cyfryngau:

- Peidiwch ag ymateb i geisiadau'r wasg am wybodaeth heb wirio'r cefndir a'r amserlen.
- Dylech chi nodi'r prif negeseuon a'r dyfyniadau bachog sydd i'w rhoi i'r cyfryngau.
- Er mwyn eich enw da, peidiwch â thaenu bai, cwyno na gwrthod siarad.
- Mae angen meithrin perthynas dda â'r cyfryngau dros dymor hir, e.e. ysgrifennu darnau ac awgrymu pynciau i'w trafod.
- Rhaid osgoi jargon, geirfa'r cyngor a sylwadau byrbwyll y gallech chi eu hedifaru.

Trin a thrafod y cyfryngau >



Pa newydd?

Dychmygwch fod gofyn ichi roi gwybodaeth i'r wasg am y sefyllfaoedd isod. Ym mhob achos, dylech chi nodi'r neges neu'r pennawd allweddol a'r hyn rydych chi am ei gyflawni trwy siarad â'r wasg:

Mae'r cyngor newydd ennill Statws Rhagoriaeth Cymru am wasanaethau ailgylchu gwastraff ac rydych chi am gyfleu pwysigrwydd hynny i'r gymuned ehangach. Bydd llwyddiant ailgylchu yn y pen draw yn dibynnu ar agwedd y bobl leol ato.

Yn sgîl ymgyrch gan gogydd enwog, mae'r cyngor yn arwain menter leol i ddarbwylllo rhieni i annog eu plant i fwyta prydau iachach yn yr ysgol. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion y fro'n cynnig amrywiaeth o brydau iach, mae nifer sylweddol o blant yn eu hosgoi o hyd.

Edrychwch eto ar eich ymatebion i'r sefyllfaoedd uchod. Ydych chi wedi trin a thrafod ymgyrch yn y wasg fel hyn o'r blaen? Ydych chi'n ddigon medrus a hyderus i drin a thrafod y cyfryngau? Oes angen ichi loywi'ch medrau cyfathrebu a dylanwadu?

Trin a thrafod achosion >

Yn ôl rhai cynghorwyr, trin a thrafod achosion yw'r rhan orau o'r gwaith am eu bod yn cael cyfle i ddatrys problemau ar ran pobl sy'n ei chael yn anodd delio â'r cyngor. Ar y llaw arall, mae rhai cynghorwyr yn ei chael yn anodd delio ag achosion.

Daw achosion atoch chi mewn sawl ffordd:

llythyrau, negeseuon ebost, galwadau ffôn, cymorthfeydd, sesiynau cynghori, sgysiau ar garreg y drws, ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol eraill.

Dyma'r ystyriaethau cyffredinol:

Nodi'r broblem – gofyn am y ffeithiau a'r cymorth mae'r preswlydd yn gofyn amdano. Rhaid cael gwybod a oes hanes hirfaith i'r broblem a phwy fu'n ymwneud â hi o'r blaen. Dylech chi wrando'n dringar, gan osgoi addo datrys pob problem.

Cysylltu â'r adran briodol o'r cyngor – efallai y byddwch chi am fynegi'ch pryderon trwy lythyr at un o'r swyddogion er mai sgwrs fer naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu trwy ebost sydd orau gan y rhan fwyaf o gynghorwyr ynglŷn â datrys problem yn gyflym. Cofiwch gadw copi o bob gohebiaeth.

Rhoi adborth – ar ôl cyflwyno ymholiadau cychwynnol, rhaid rhoi gwybod i'r preswlydd am yr hyn rydych chi'n ei wneud gan gysylltu ag e bob hyn a hyn i roi'r diweddaraf am y cynnydd a, maes o law, y canlyniad. Fydd e ddim yn gwybod beth sy'n digwydd oni bai'ch bod yn rhoi gwybod iddo.

Ystyried y materion ehangach – dylech chi feddwl am y materion ddaeth i'r amlwg yn yr achos a thynnu sylw'r cynghorwyr eraill atyn nhw. Os oes nifer o bryderon tebyg gyda nhw, mae'n bosibl y bydd eisiau adolygu neu lunio polisi neu roi'r mater gerbron pwyllgor craffu. Lle rydych chi wedi llwyddo i ddatrys problem, bydd yn werth rhoi'r manylion i'r cynghorwyr eraill i'w helpu i ymdopi â sefyllfaoedd o'r fath. Dylech chi dynnu sylw pobl y ward at eich llwyddiant trwy daflenni a chylchlythyrau ond peidiwch â rhoi manylion am yr achos heb ganiatâd y preswlydd dan sylw.

Trin a thrafod achosion >



Ystyriwch y problemau isod a phennu'r camau y byddwch chi'n eu cymryd i'w datrys:

Mae un o denantiaid y cyngor yn cwyno am sŵn, rhegi a niwsans achos bod tenantiaid newydd drws nesaf iddo'n trwsio ceir drwy'r amser.

Mae cymydog rhywun sy'n gaeth i gadair olwynion yn cwyno bod gwasanaeth ailgylchu newydd yn anwybyddu anghenion preswylwyr o'r fath sy'n gorfod dibynnu ar gymdogion i'w helpu.

Ydy'r rhain yn debyg i'r achosion rydych chi'n ymwneud â nhw? Pa mor aml y byddwch chi'n adolygu safon eich gwaith ynglŷn â thrin a thrafod achosion? Sut rydych chi'n cadw'r ddysgl yn wastad rhwng achosion a blaenoriaethau ehangach y cyngor?

Y camau nesaf



I ble ewch chi o fan hyn?

Edrychwch ar rannau blaenorol y llawlyfr hwn ac ystyried y canlynol:

Pa gamau allweddol y gallwch chi eu pennu fel y byddwch chi'n fwy effeithiol dros eich ward? (Tri neu bedwar arfer yr hoffech chi eu meithrin, eu cadw neu roi'r gorau iddyn nhw.)

Ydych chi wedi nodi unrhyw ddiffygion yn eich gwybodaeth neu'ch medrau personol? Os felly, disgrifiwch nhw isod a nodi sut gallai rhagor o hyfforddi neu ddatblygu fod o gymorth ichi, e.e. darllen/ymchwil ychwanegol, cyrsiau, hyfforddi personol, mentora, cysgodi ac ati.



Atodiad

Ffynonellau rhagor o wybodaeth

Llawlyfrau

Community Leadership – What is it? (Cymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr)

Community Engagement and Empowerment – A Guide for Councillors (IDeA – 'Gwella a Datblygu Llywodraeth Leol' bellach) 2010

Gwefannau

WLGA

www.wlga.gov.uk

Strategaeth Cydlyniant Llywodraeth y Cynulliad

wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/communitycohesion/publications/strategy/?lang=cy

Gwybodaeth am arwain y gymuned

www.wlga.gov.uk/english/community-leadership/

Canllawiau am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i'ch helpu i arwain y fro

www.idea.gov.uk/idk/core/page.do?pageId=17797214

Un Llais Cymru mudiad sy'n rhoi cyngor a chanllawiau i gynghorau tref a chymuned

www.onevoicewales.org.uk/

Gwefan Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru – helpu'r awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad i ddefnyddio data'n fwy effeithiol fel y gallan nhw ddeall a gwella'r gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig i bobl Cymru.

www.dataunitwales.gov.uk/Home.asp

Info Base Cymru

www.infobasecymru.net

Gwybodaeth am asesu effeithiau ar iechyd yng Nghymru

www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?OrgID=522

Atodiad

Ffynonellau rhagor o wybodaeth

Gwybodaeth ystadegol mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i chasglu fesul thema. Mae gwybodaeth ar gael fesul ardal, hefyd.

www.new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/;jsessionid

www.info4local.gov.uk

Gwefan sy'n cynnig yr holl wybodaeth mae adrannau ac asiantaethau gwladol wedi'i chyhoeddi am fyd llywodraeth leol. Mae gwybodaeth gyffredinol ar gael ar gyfer Cymru a Lloegr er mai dim ond hyn a hyn o wybodaeth benodol am Gymru sydd yno.

Gwefan Swyddfa'r Ystadegau Gwladol ac arni wybodaeth fesul ward.

www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/

www.upmystreet.com

Rhaid cyflwyno côd post i gael gwybodaeth gymdeithasol ac economaidd fesul cymdogaeth.

www.lacors.gov.uk

Y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio gwasanaethau rheoleiddio a gorchwylion perthynol awdurdodau lleol y DG.

Cronfa ddata ar gyfer rheoli perfformiad cyfundrefnol yw **Ffynnon**. Mae 30 o sefydliadau ledled Cymru yn defnyddio'r sistem sy'n eu galluogi i gasglu a chyflwyno gwybodaeth am risgiau, prosiectau a dangosyddion ar amryw ffurfiau.
www.wales.gov.uk/topics/localgovernment/ffynnon/?lang=en

Swyddfa Archwilio Cymru

www.wao.gov.uk/

© 2009 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Wedi'i addasu a'i gyhoeddi trwy ganiatâd Asiantaeth Gwella a Datblygu Llywodraeth Leol. Cedwir pob hawl.